



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3  
Legislation Committee No. 3**

**Dydd Iau, 1 Hydref 2009  
Thursday, 1 October 2009**

**Cynnwys  
Contents**

- 3 Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon  
Introduction, Apologies and Substitutions
- 4 Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru)—Cyfnod 2: Ystyried Gwelliannau  
Proposed Education (Wales) Measure—Stage 2: Consideration of Amendments

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy yn ddi yn y Siambra. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

**Aelodau'r pwylgor yn bresennol**  
**Committee members in attendance**

Peter Black	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats
Christine Chapman	Llafur Labour
William Graham	Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives
Helen Mary Jones	Plaid Cymru The Party of Wales
David Lloyd	Plaid Cymru (Cadeirydd y Pwyllgor) The Party of Wales (Committee Chair)
Joyce Watson	Llafur (yn dirprwyo ar ran Janice Gregory) Labour (substitute for Janice Gregory)

**Eraill yn bresennol**  
**Others in attendance**

Jane Hutt	Aelod Cynulliad, Llafur (y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau) Assembly Member, Labour (the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills)
Huw Maguire	Rheolwr Polisi Mesur AAA, Llywodraeth Cynulliad Cymru SEN Measure Policy Manager, Welsh Assembly Government
Amina Rix	Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cynulliad Cymru Legal Services, Welsh Assembly Government

**Swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bresennol**  
**National Assembly for Wales officials in attendance**

Fay Bowen	Clerc Clerk
Gwyn Griffiths	Cyngorydd Cyfreithiol Legal Adviser
Ruth Hatton	Dirprwy Glorc Deputy Clerk
Owain Roberts	Dirprwy Glorc Deputy Clerk
Gareth Williams	Clerc Clerk

*Dechreuodd y cyfarfod am 1.29 p.m.  
The meeting began at 1.29 p.m.*

**Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon**  
**Introduction, Apologies and Substitutions**

[1] **David Lloyd:** Croeso i gyfarfod **David Lloyd:** Welcome to the latest meeting diweddaraf Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3. of Legislation Committee No. 3. The purpose Pwrpas y cyfarfod yw trafod y Mesur of the meeting is to discuss the Proposed Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru). Education (Wales) Measure.

[2] Yr wyf derbyn ymddiheuriadau gan Janice Gregory, a bydd Joyce Watson yn dirprwyo ar ei rhan.

[3] Os bydd larwm tân, dylai Aelodau adael yr ystafell drwy'r allanfeydd tân penodol gan ddilyn cyfarwyddiadau'r tywysyddion. Nid ydym yn disgwyl prawf y prynhawn yma. Dylai pawb ddiffodd eu ffonau symudol, galwyr a'u 'mwyar duon' gan eu bod yn amharu ar yr offer darlledu. Bydd pawb yn ymwybodol erbyn hyn bod y Cynulliad yn gweithredu yn ddwyieithog. Mae clustffonau ar gael i glywed y cyfieithiad ar y pryd ac i addasu lefel y sain i bobl sy'n drwm eu clyw. Mae'r cyfieithiad ar y pryd ar gael ar sianel 1 a gellir addasu sain y darllediad gair am air ar sianel 0. Nid oes angen i Aelodau gyffwrdd â'r botymau ar y meicroffonau, oherwydd bydd hynny'n amharu ar y system ddarlledu. Gofynnaf ichi sicrhau bod y golau coch ymlaen cyn ichi ddechrau siarad.

1.31 p.m.

## **Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru)—Cyfnod 2: Ystyried Gwelliannau Proposed Education (Wales) Measure—Stage 2: Consideration of Amendments**

[4] **David Lloyd:** Esboniaf yr hyn fydd yn digwydd y prynhawn yma a'r drefn gyfreithiol wrth inni ystyried y Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru), sydd yng Nghyfnod 2. Byddwn yn ystyried nifer o welliannau ac mae Aelodau eisoes wedi cael nodyn gan y clercod yn egluro'r egwyddorion a gwybodaeth am sut y bydd Cyfnod 2 yn gweithio. Fodd bynnag, hoffwn esbonio yn fanylach sut y bydd y cyfarfod yn gweithio a sut y byddaf yn delio â'r trafodaethau.

[5] Dylai bod gan Aelodau gopi o'r Mesur arfaethedig, rhestr o'r gwelliannau wedi'u didoli, a'r ddogfen grwpio gwelliannau er mwyn eu trafod. Mae rhestr y gwelliannau wedi'u didoli yn cynnwys yr holl welliannau a gyflwynwyd sydd wedi'u didoli yn y drefn y maent yn ymwneud â'r Mesur arfaethedig. Caiff yr Atodleni eu hystyried gyda'r adrannau perthnasol sy'n eu cyflwyno. Felly, yn ein cyfarfodydd, byddwn yn dilyn y drefn a ganlyn: yn gyntaf, adrannau 1 i 21; Atodlen 1; adrannau 22 i 24; adrannau newydd; ac yn olaf y teitl hir.

I have received apologies from Janice Gregory, and Joyce Watson will be substituting on her behalf.

Should there be a fire alarm, Members should exit the room through the designated fire exits, and follow instructions from the ushers. We are not expecting a drill this afternoon. Everyone should switch off their mobile phones, pagers and BlackBerrys as they affect the broadcasting equipment. Everyone will be aware by now that the Assembly operates bilingually. Headsets are available to hear the interpretation and to amplify the sound for those who may be hard of hearing. Interpretation is available on channel 1 and the verbatim proceedings can be amplified on channel 0. Members do not need to press the buttons on the microphones as doing so can interfere with the broadcasting system. I ask that you ensure that the red light is on before you begin to speak.

**David Lloyd:** I will explain what will happen this afternoon and the legal procedure as we consider the Proposed Education (Wales) Measure, which is at Stage 2. We will consider a number of amendments and Members have already received a note from the clerks explaining the principles, which also contained information on how Stage 2 will work. However, I will explain in more detail how the meeting will operate and how I will deal with the proceedings.

Members should have a copy of the proposed Measure, a marshalled list of the amendments, and the document outlining the grouping of amendments for discussion. The marshalled list of amendments contains all the amendments that have been tabled in the order in which they relate to the proposed Measure. Schedules will be considered with the relevant sections that introduced them. Therefore, in our meetings, we will follow this order: first, sections 1 to 21; Schedule 1; sections 22 to 24; new sections; and finally the long title.

[6] Gallwch weld o'r rhestr grwpio bod y gwelliannau wedi'u grwpio er mwyn hwyluso'r drafodaeth, ond y rhestr o welliannau wedi'u didoli sy'n pennu'r drefn y caint eu galw a'u cynnig. Bydd angen i Aelodau ddilyn y ddau bapur, er y byddaf yn rhoi gwybod i Aelodau pan fyddaf yn galw arnynt naill ai i siarad yn rhan o'r drafodaeth neu i gynnig eu gwelliannau er mwyn sicrhau bod penderfyniad yn cael ei wneud.

[7] Ceir un drafodaeth am bob grŵp o welliannau. Byddaf yn galw ar y sawl a gynigiodd welliant cyntaf y grŵp i gynnig y gwelliant cyntaf a siarad am hwnnw a'r gwelliannau eraill yn y grŵp. Yna, byddaf yn galw ar y siaradwyr eraill, gan gynnwys yr Aelodau eraill sy'n cynnig gwelliannau yn y grŵp hwnnw ond ni ddylent gynnig eu gwelliannau ar yr adeg hon. Dylai Aelodau nad oes ganddynt welliant yn y grŵp hwnnw ond sydd eisiau siarad nodi eu bod am siarad yn y ffordd arferol. Byddaf yn galw ar y Gweinidog i siarad ar bob grŵp. I ddod â phob trafodaeth i ben, byddaf yn galw ar y sawl a gynigiodd y gwelliant cyntaf yn y grŵp i ymateb.

[8] Nid wyf yn bwriadu caniatâu ymyriadau ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol, a hynny er mwyn sicrhau bod pawb yn canolbwytio yn briodol ar y drafodaeth. Fodd bynnag, caiff pob Aelod gyfle i siarad yn y drafodaeth am bob grŵp.

[9] Yn dilyn y drafodaeth am grŵp, byddaf yn cadarnhau bod yr Aelod a gynigiodd y gwelliant cyntaf o hyd eisiau pwysio am benderfyniad. Os na, gall ef neu hi geisio cytundeb y pwylgor i dynnu'r gwelliant yn ei ôl. Os na chaiff ei dynnu yn ôl, byddaf yn gofyn a ddylai'r gwelliant cyntaf gael ei dderbyn ai peidio. Fy nod i yw sicrhau bod yr holl bleidleisiau yn cael eu cofnodi fel bod enwau'r sawl sy'n pleidleisio o blaid, yn erbyn, neu sy'n ymatal yn glir.

[10] Galwaf ar gynigwyr y gwelliannau eraill ym mhob grŵp i'w cynnig ar yr adeg briodol, yn unol â'r rhestr o welliannau wedi'u didoli. Os nad ydych am gynnig eich gwelliant, dylech nodi hynny'n glir pan gaiff y gwelliant ei alw.

[11] Er gwybodaeth, dim ond aelodau'r

You will see from the groupings list that the amendments have been grouped in order to facilitate the discussion, but it is the marshalled list that determines the order in which they are called and moved. Members will need to follow both papers, but I will advise Members when I call on them either to speak as part of the discussion or to move their amendments, to ensure that a decision is made.

There will be one discussion on each group of amendments. I will call on the person who proposed the first amendment in a group to move that amendment and to speak to that and the other amendments in the group. Then, I will call on other speakers, including Members who have proposed the other amendments in that group. However, they should not move their amendments at that point. Members who do not have an amendment in the group but who would like to speak should indicate that in the usual way. I will call on the Minister to speak for each group. To conclude each discussion, I will call on the person who moved the lead amendment to respond.

I do not intend to allow interventions except under exceptional circumstances. That is to ensure that everyone pays full attention to the discussion. However, every Member will have an opportunity to speak in the discussion on every group.

Following the discussion on a group, I will confirm whether the Member proposing the lead amendment wishes to proceed to a decision. If not, he or she may request the agreement of the committee to withdraw the amendment. If it is not withdrawn, I will ask whether the first amendment should be accepted or not. My aim is to ensure that all the votes are recorded so that the names of those who vote in favour of, against, or who abstain are clear.

I will call on the proposers of other amendments in each group to move them at the appropriate time, in line with the marshalled list. If you do not wish to move your amendment, you should indicate that clearly when it is called.

For your information, only committee

pwylgor sy'n cael cynnig gwelliannau. Byddaf innau yn cynnig gwelliannau ar ran y Gweinidog.

[12] Bydd Aelodau'n ymwybodol mai'r unig ffordd o drafod adran o'r Mesur arfaethedig yw cyflwyno gwelliant iddi. Os na chyflwynir gwelliant i adran, bennir ei bod wedi'i derbyn. Bydd hynny'n wir hefyd am unrhyw adrannau y gwrthodir y gwelliannau a gyflwynwyd iddynt. Byddaf yn cyhoeddi pa adrannau sydd wedi'u derbyn ar ddiwedd y cyfarfod.

[13] Bydd cyfle arall i gyflwyno gwelliannau i unrhyw adrannau na fyddant wedi'u gwaredu heddiw. Er mwyn gallu ystyried gwelliannau yn ystod cyfarfod yr wythnos nesaf—os rhaid cynnal cyfarfod o gwbl—bydd angen eu cyflwyno erbyn 5 p.m. heddiw.

[14] Gyda hynny o esboniad ac eglurhad o'r drefn y prynhawn yma, a oes unrhyw gwestiynau? A yw pawb yn fodlon? Gwelaf eich bod. Diolch yn fawr.

members may move amendments. I will move amendments on behalf of the Minister.

Members will be aware that only those parts of the proposed Measure to which an amendment has been tabled are open to discussion. If an amendment is not tabled to a section, it will be deemed to have been agreed. That also applies to any sections to which amendments have been rejected. I will announce which sections have been approved at the end of the meeting.

For any section that is not disposed of today, there will be another opportunity to table amendments to it. To allow us to consider amendments at a meeting next week—if such a meeting is required—they will need to be tabled by 5 p.m. today.

Following that explanation and clarification of how we shall proceed this afternoon, are there any questions? Is everyone content? I see that you are. Thank you.

#### **Apelau a Hawliadau Addysg gan Blant (Gwelliannau 1, 2, 3 a 4)** **Education Appeals and Claims by Children (Amendments 1, 2, 3 and 4)**

[15] **David Lloyd:** Croeso unwaith eto i'r Gweinidog a'i swyddogion.

**David Lloyd:** Welcome once more to the Minister and her officials.

[16] Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 1. Weinidog, a hoffech i welliant 1 yn eich enw chi gael ei gynnig?

The lead amendment in this group is amendment 1. Minister, would you like me to move amendment 1 in your name?

[17] **The Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills (Jane Hutt):** I would.

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Hoffwn.

[18] **David Lloyd:** Felly, cynigiaf welliant 1 yn enw Jane Hutt, a galwaf ar y Gweinidog i siarad amdano a'r gwelliannau eraill y grŵp.

**David Lloyd:** I therefore move amendment 1 in the name of Jane Hutt, and I call on the Minister to speak to that and the other amendments in the group.

[19] **Jane Hutt:** The purpose of amendment 1 is to remove from the proposed Measure the power for Welsh Ministers to specify in regulations the circumstances in which children and young people could not make an appeal or claim. I gave an undertaking in the Stage 1 Plenary debate to remove these powers from the proposed Measure. The aim of the proposed Measure is to extend the right

**Jane Hutt:** Pwrpas gwelliant 1 yw dileu o'r Mesur arfaethedig bŵer Gweinidogion Cymru i bennu mewn rheoliadau o dan ba amgylchiadau na châi plant a phobl ifanc apelio neu wneud hawliad. Addewais yn y drafodaeth Cyfnod 1 yn y Cyfarfod Llawn y byddwn yn dileu'r pwerau hyn o'r Mesur arfaethedig. Nod y Mesur arfaethedig yw ehangu'r hawl i apelio neu hawlio drwy ei

of appeal or claim by making it universal. A provision to fetter that right, I agree, is inconsistent with the principle. The power that this amendment seeks to remove from the proposed Measure is not time limited, and the existing provision, unless removed, leaves it open to future change by Governments or Ministers who do not share our forward-thinking views on children and young people's entitlement to participation. I therefore feel that it is right to make this amendment, which was helpfully discussed at Stage 1 in committee and in Plenary, where, as I said, I agreed with the committee's recommendation to remove the provision. I therefore ask you to support this amendment.

[20] The Government's amendment 2 is a technical amendment in support of amendment 1. Section 8(4) of the proposed Measure proposes a new section 569(2A) of the Education Act 1996. Amendment 2 seeks to remove the reference to section 332ZA of that Act. That section dealt with the procedure for regulations made under it, but the reference will be unnecessary if the power to do so is removed from the proposed Measure.

[21] The Government's amendment 3 seeks to remove from the proposed Measure a residual power for the Welsh Ministers to make regulations specifying the circumstances in which a disabled child may not make a disability discrimination claim to the tribunal. That is also in parallel with amendment 1, as it would remove a similar regulation-making power in respect of special educational needs appeals.

[22] The Government's amendment 4 is another technical amendment, this time in support of amendment 3, and is similar in effect to amendment 2. Section 16 of the proposed Measure proposes to introduce a new section 67(5B) to the Disability Discrimination Act 1995. Given that the power to make regulations under section 28IA of that Act is to be removed from the proposed Measure, the requirement for a procedural provision in section 67(5B) will be unnecessary. I ask you to support these amendments.

gwneud yn agored i bawb. Cytunaf fod darpariaeth i gyfyngu ar yr hawl honno yn anghyson â'r egwyddor. Nid oes cyfyngiad amser ar y pŵer y mae'r gwelliant hwn yn ceisio'i ddileu o'r Mesur arfaethedig, ac mae'r ddarpariaeth bresennol, oni chaiff ei dileu, yn ei adael yn agored i gael ei newid yn y dyfodol gan Lywodraethau neu Weinidogion nad ydynt yn rhannu'n hagwedd flaengar ni tuag at hawl plant a phobl ifanc i gymryd rhan. Teimlaf felly ei bod yn briodol gwneud y gwelliant hwn, y cafwyd trafodaeth fuddiol arno yng Nghyfnod 1 yn y pwylgor ac yn y Cyfarfod Llawn, lle cytunais, fel y dywedais, ag argymhelliaid y pwylgor i ddileu'r ddarpariaeth. Gofynnaf felly ichi gefnogi'r gwelliant hwn.

Gwelliant technegol yw gwelliant 2 gan y Llywodraeth yn cefnogi gwelliant 1. Mae Adran 8(4) o'r Mesur arfaethedig yn cynnig adran newydd 569(2A) o Ddeddf Addysg 1996. Diben gwelliant 2 yw dileu'r cyfeiriad at adran 332ZA o'r Ddeddf honno. Roedd yr adran honno yn delio â'r weithdrefn i reoliadau a gâi eu gwneud oddi tanu, ond ni fydd angen y cyfeiriad os caiff y pŵer i wneud hynny ei ddileu o'r Mesur arfaethedig.

Mae gwelliant 3 gan y Llywodraeth yn ceisio dileu o'r Mesur arfaethedig bŵer gweddilliol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn pennu o dan ba amgylchiadau na chaiff plentyn anabl wneud hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd i'r tribiwnlys. Mae hynny'n mynd law yn llaw hefyd â gwelliant 1, gan y byddai'n dileu pŵer tebyg i wneud rheoliadau mewn perthynas ag apelau anghenion addysgol arbennig.

Mae gwelliant 4 gan y Llywodraeth yn welliant technegol arall, y tro hwn yn cefnogi gwelliant 3, ac mae'n debyg o ran ei effaith i welliant 2. Mae Adran 16 o'r Mesur arfaethedig yn cynnig cyflwyno adran newydd 67(5B) yn Neddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. O ystyried bod y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 28IA o'r Ddeddf honno i gael ei ddileu o'r Mesur arfaethedig, bydd y gofyniad am ddarpariaeth weithdrefnol yn adran 67(5B) yn ddianghenraig. Gofynnaf ichi gefnogi'r gwelliannau hyn.

1.40 p.m.

[23] **David Lloyd:** A oes unrhyw Aelod eisiau siarad am y gwelliannau?

[24] **Helen Mary Jones:** I just wish to say that I am very grateful to the Minister for agreeing with our Stage 1 committee's recommendation on this.

[25] **David Lloyd:** A oes unrhyw un arall? Gwelaf nad oes. A hoffai'r Gweinidog ymateb i'r drafodaeth? A hoffech chi symud i bleidlais ar welliant 1, Weinidog?

[26] **Jane Hutt:** I think that we can move on to supporting and moving these amendments.

[27] **David Lloyd:** Symudwn felly i bleidlais ar welliant 1. Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 1.

*Gwelliant 1: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Amendment 1: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Black, Peter  
Chapman, Christine  
Graham, William  
Jones, Helen Mary  
Watson, Joyce

*Derbyniwyd gwelliant 1.  
Amendment 1 agreed.*

[28] **David Lloyd:** Ni fydd pleidlais ar welliannau 2, 3 a 4 ar hyn o bryd. Fel y dywedais eisoes, byddwn yn dychwelyd i bleidleisio ar y rhain yn ddiweddarach yn y trafodion, yn unol â'r rhestr o welliannau wedi'u didoli.

**David Lloyd:** Does any Member wish to speak to the amendments?

**Helen Mary Jones:** Dim ond dweud fy mod yn ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am gytuno ag argymhellion ein pwylgor Cyfnod 1 ar hyn.

**David Lloyd:** Is there anyone else? I see that there is not. Does the Minister wish to respond to the debate? Do you wish to move to a vote on amendment 1, Minister?

**Jane Hutt:** Credaf y gallwn symud ymlaen i gefnogi a chynnig y gwelliannau hyn.

**David Lloyd:** We will therefore move to a vote on amendment 1. The question is that amendment 1 be agreed to.

**David Lloyd:** There will be no vote on amendments 2, 3 and 4 at this point. As I have already said, we will return to vote on them later in the proceedings, in accordance with the marshalled list.

#### **Hysbysu a Chyflwyno Dogfennau/Cyngor a Gwybodaeth (Gwelliannau 25, 26 a 27) Notice and Service of Documents/Advice and Information (Amendments 25, 26 and 27)**

[29] **David Lloyd:** Trown yn awr at grŵp 2, sy'n cynnwys gwelliannau 25, 26 a 27. Galwaf ar William Graham i gynnig y prif welliant, gwelliant 25, sydd yn enw Paul Davies, ac i siarad am y gwelliannau eraill yn y grŵp. Mae gwelliant 25 ar dudalen 1 o'r rhestr o welliannau wedi'u didoli.

**David Lloyd:** We now turn to group 2, which contains amendments 25, 26 and 27. I call on William Graham to move the lead amendment, amendment 25, in the name of Paul Davies, and to speak to the other amendments in the group. Amendment 25 is on page 1 of the marshalled list.

[30] **William Graham:** I move amendment 25 in the name of Paul Davies and with my name in support.

[31] My party spokesman feels that the regulations are not clear with regard to whether children will be allowed to choose an alternative advocate. Hence, the reason for these amendments.

[32] **David Lloyd:** Diolch, William. A oes unrhyw Aelod arall eisiau siarad?

[33] **Peter Black:** I am happy to support these amendments. It seems to me that there is a need to ensure that any information given to children is appropriate to their age. I think that the amendments as set out effectively underline that principle. I also think that they are in the spirit of the rest of the proposed Measure.

[34] **Helen Mary Jones:** I would not disagree in principle with the points made by Peter Black and William Graham. However, if we are talking about age-appropriateness, we also need to specify in the legislation that the information must be appropriate for those with different types of disabilities and needs. Therefore, I suggest that we have extensive discussions about what may be determined by the pilot scheme, and I put it to the committee that it might be better for these rules to be made in the guidance, after the pilot schemes have been completed, so that other factors, as well as age appropriateness, can be established.

[35] **David Lloyd:** Galwaf ar y Gweinidog i siarad.

[36] **Jane Hutt:** The purpose of the pilot period is to tease out the intricacies of important issues such as communication matters, and to develop and disseminate good practice. In fact, it goes back to the Stage 1 committee. Having taken evidence, the committee report said the following.

[37] ‘We also consider that the pilot and evaluation phase will be crucial in identifying effective means of communicating with and engaging children with the new rights available to them.’

**William Graham:** Cynigiaf welliant 25 yn enw Paul Davies a chyda f'enw i yn ei gefnogi.

Teimla llefarydd fy mhlaid nad yw'r rheoliadau'n dangos yn glir a fydd plant yn cael dewis eiriolwr gwahanol. Dyna'r rheswm, felly, am y gwelliannau hyn.

**David Lloyd:** Thank you, William. Does any other Member wish to speak?

**Peter Black:** Yr wyf yn hapus i gefnogi'r gwelliannau hyn. Mae'n ymddangos i mi fod angen sicrhau bod unrhyw wybodaeth a roddir i blant yn briodol i'w hoedran. Credaf fod y gwelliannau fel y'u cyflwynwyd yn tanlinellu'r egwyddor honno'n effeithiol. Credaf hefyd eu bod yn unol ag ysbryd gweddill y Mesur arfaethedig.

**Helen Mary Jones:** Ni fyddwn yn anghytuno mewn egwyddor â'r pwyntiau a wnaethpwyd gan Peter Black a William Graham. Fodd bynnag, os ydym yn sôn am fod yn briodol i oedran, mae angen hefyd inni bennu yn y ddeddfwriaeth fod rhaid i'r wybodaeth fod yn briodol i'r rhai sydd â gwahanol fathau o anableddau ac anghenion. Felly, awgrymaf ein bod yn cael trafodaethau helaeth ynglŷn â'r hyn a allai gael ei benderfynu gan y cynllun treialu, ac awgrymaf wrth y pwylgor y gallai fod yn well i'r rheolau hyn gael eu gwneud yn y canllawiau, ar ôl i'r cynlluniau treialu gael eu cwblhau, fel bod modd sefydlu ffactorau eraill yn ogystal â bod yn briodol i oedran.

**David Lloyd:** I call on the Minister.

**Jane Hutt:** Diben y cyfnod treialu yw canfod cymhlethdodau materion pwysig fel cyfathrebu, a datblygu a lledaenu arferion da. Yn wir, mae'n mynd yn ôl i bwylgor Cyfnod 1. Ar ôl cymryd tystiolaeth, dywedodd adroddiad y pwylgor y canlynol.

‘Rydym hefyd yn credu y bydd y cyfnod treialu a gwerthuso yn hollbwysig o ran canfod dulliau effeithiol o gyfathrebu gyda phlant a'u hymgysylltu â'r hawliau newydd sydd ganddynt.’

[38] So, I think that it would be far better to develop meaningful and accessible practical guidance that covers appropriate communication strategies. It is a question of who explains, when and how. We need the flexibilities of regulations and guidance to respond appropriately to the pilot period. It is fair to say that the committee at Stage 1 considered very carefully how we can explain information and decisions under this section to children of different ages and understanding, and it recommended that guidance should be developed. I do not see any reason why we should disagree with the committee's recommendation. I also recognise that we must talk about a range of different media and channels for communicating with children at different times and in different circumstances. That can include one-to-one personal communication. If an explanation is only age-appropriate, it really could be meaningless to children who are not functioning at a relevant chronological age. So, I think that the wording would be inappropriate. I do not think it necessary to place it on the face of the proposed Measure, so I ask you to resist supporting amendment 25, given the pilot opportunities and any guidance that we would develop.

[39] **David Lloyd:** Diolch yn fawr, Weinidog. Galwaf ar William Graham i ymateb i'r drafodaeth.

[40] **William Graham:** I note the Minister's comments, but I do not wish to withdraw the amendment.

[41] **David Lloyd:** Felly, a hoffech chi symud i bleidlais ar welliant 25?

[42] **William Graham:** Yes, I wish to proceed to a vote.

[43] **David Lloyd:** Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 25.

Felly, credaf y byddai'n llawer gwell datblygu canllawiau ymarferol ystyrlon a hygyrch sy'n ymdrin â strategaethau cyfathrebu priodol. Mae'n fater o bwy sy'n egluro, pryd a sut. Mae angen hyblygrwydd rheoliadau a chanllawiau arnom i ymateb yn briodol i'r cyfnod treialu. Mae'n deg dweud i'r pwylgor ystyried yn ofalus iawn yng Nghyfnod 1 sut y gallwn egluro gwybodaeth a phenderfyniadau o dan yr adran hon wrth blant o wahanol oedrannau ac â lefelau gwahanol o ddealltwriaeth, ac argymhellodd y dylid datblygu canllawiau. Ni welaf unrhyw reswm pam y dylem anghytuno ag argymhelliad y pwylgor. Yr wyf hefyd yn cydnabod bod rhaid inni siarad am ystod o gyfryngau a sianelau gwahanol er mwyn cyfathrebu â phlant ar wahanol adegau ac o dan wahanol amgylchiadau. Gall hynny gynnwys cyfathrebu personol un wrth un. Os nad yw esboniad ond yn briodol i'r oedran, gallai yn wir fod yn ddiystyr i blant nad ydynt yn gweithredu yn unol â'r oedran cronolegol perthnasol. Felly, credaf y byddai'r geiriad yn amhriodol. Ni chredaf fod rhaid ei roi ar wyneb y Mesur arfaethedig, felly gofynnaf ichi beidio â chefnogi gwelliant 25, o ystyried y cyfleoedd treialu ac unrhyw ganllawiau y byddem yn eu datblygu.

**David Lloyd:** Thank you very much, Minister. I call on William Graham to respond to the discussion.

**William Graham:** Nodaf sylwadau'r Gweinidog, ond nid wyf am dynnu'r gwelliant yn ôl.

**David Lloyd:** Do you, therefore, wish to proceed to a vote on amendment 25?

**William Graham:** Hoffwn, byddwn yn hoffi symud i bleidlais.

**David Lloyd:** The question is that amendment 25 be agreed to.

*Gwelliant 25: O blaidd 2, Ymatal 0, Yn erbyn 3.  
Amendment 25: For 2, Abstain 0, Against 3.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaidd:  
The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Black, Peter  
Graham, William

Chapman, Christine  
Jones, Helen Mary  
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd gwelliant 25.  
Amendment 25 not agreed.*

[44] **David Lloyd:** Ni fydd pleidlais ar welliannau 26 a 27 ar hyn o bryd. Byddwn yn dychwelyd i bleidleisio ar y rhain yn ddiweddarach yn y trafodion, yn unol â'r rhestr o welliannau wedi'u didoli.

**David Lloyd:** There will not be votes on amendments 26 and 27 at this point. We will return to vote on these later in the proceedings, in accordance with the marshalled list.

**Cyfeillion Achos (Gwelliannau 28, 30, 23, 29, 31, 24)**  
**Case Friends (Amendments 28, 30, 23, 29, 31, 24)**

[45] **David Lloyd:** Galwaf ar William Graham i gynnig y prif welliant, sef gwelliant 28, yn enw Paul Davies ac i siarad am y gwelliannau eraill yn y grŵp.

**David Lloyd:** I call on William Graham to propose the lead amendment, namely amendment 28, in the name of Paul Davies and to speak to the other amendments in the group.

[46] **William Graham:** I move amendment 28 in the name of Paul Davies and with my name in support. My only comment is that the amendments, in my view, state what the committee felt at the various stages of previous discussions and are supported by some of the evidence given by outside bodies.

**William Graham:** Symudaf yn awr at welliant 28 yn enw Paul Davies a chyda f'enw i yn ei gefnogi. Fy unig sylw yw bod y gwelliannau, yn fy marn i, yn datgan yr hyn a deimlai'r pwylgor ar wahanol gamau'r trafodaethau blaenorol ac fe'u hategir gan beth o'r dystiolaeth a roddwyd gan gyrff allanol.

[47] **David Lloyd:** A oes unrhyw aelod arall o'r pwylgor yn dymuno siarad?

**David Lloyd:** Does any other committee member wish to speak?

[48] **Peter Black:** I am happy to support these amendments. It seems to me that there are a number of important principles outlined in these amendments, particularly the need for the enhanced Criminal Records Bureau check, which was discussed by the committee at Stage 1, and that the case friends would not require the consent of the child's parents before being appointed. Again, the amendments refer to ensuring that appropriate understanding is applied to the child. Those are all important principles in ensuring that this works well and leads to the pilot scheme's success. I would prefer these to be included on the face of the proposed Measure rather than wait for guidelines to come out.

**Peter Black:** Yr wyf yn hapus i gefnogi'r gwelliannau hyn. Mae'n ymddangos i mi bod nifer o egwyddorion pwysig yn cael eu hamlinellu yn y gwelliannau hyn, yn arbennig yr angen am wiriad manylach gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol, a drafodwyd gan y pwylgor yng Nghyfnod 1, ac na fyddai rhaid i'r cyfeillion achos gael caniatâd rhieni'r plentyn cyn iddynt gael eu penodi. Eto, mae'r gwelliannau'n cyfeirio at sicrhau bod dealltwriaeth briodol yn cael ei chymhwysio i'r plentyn. Mae'r rhain i gyd yn egwyddorion pwysig er sicrhau bod hyn yn gweithio'n dda ac yn arwain at lwyddiant y cynllun treialu. Byddai'n well gennyf i'r rhain gael eu cynnwys yn y Mesur arfaethedig yn hytrach na disgwyl i ganllawiau ymddangos.

[49] **David Lloyd:** Galwaf yn awr ar y

**David Lloyd:** I will now call on the Minister

Gweinidog i siarad.

[50] **Jane Hutt:** In addressing amendments 28 and 29, the issue of parental consent for case friends was widely considered by the committee at Stage 1. I gave an assurance that there would be no consent requirement on the face of the proposed Measure. Accordingly, there is no such requirement in the proposed Measure. It is unnecessary to stipulate the negative in the proposed Measure. As you know, I have been an exponent of the universal right of appeal and we have moved to create this novel proposition that a case friend may appeal or claim on a child's behalf. However, we will work through these issues in the pilot areas and within the pilot design group. The starting point must be not to include the consent requirement on the face of the proposed Measure, which is why I ask you not to support amendment 29.

[51] On CRB checks, my comments stand in respect of amendments 30 and 31, because we must be mindful of the need to safeguard our children and young people; I recognise that fact. However, the principle of providing the case friend with a broad capacity to act is supported by the tribunals and others. It would not be straightforward to specify that all potential case friends be subject to CRB checks. For example, what if a sibling or a parent wished to act as a case friend? The most important thing is the primary legislation that we have here. It is also important to restate that the Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006 legislates on this matter, excepting those who will have frequent contact with a child under arrangements made with family members or unpaid arrangements with trusted friends from being subject to registration under the Act, which would necessitate CRB checks. So, important primary legislation requires people who have contact with children more than once a month, in either a professional capacity or acting as a volunteer, to be registered with the independent safeguarding authority and to be CRB checked.

to speak.

**Jane Hutt:** Wrth ymdrin â gwelliannau 28 a 29, cafodd mater caniatâd rhieni i gyfeillion achos ei ystyried yn eang gan y pwylgor yng Nghyfrod 1. Rhoddais sicrwydd na fyddai gofyniad caniatâd yn y Mesur arfaethedig ei hun. Felly, nid oes gofyniad o'r fath yn y Mesur arfaethedig. Nid oes angen pennu'r negyddol yn y Mesur arfaethedig. Fel y gwyddoch, yr wyf wedi bod o blaidd yr hawl i bawb gael apelio ac yr ydym wedi mynd ati i greu'r cynnig gwreiddiol hwn y cai cyfaill achos apelio neu wneud hawliad ar ran plentyn. Fodd bynnag, byddwn yn gweithio drwy'r materion hyn yn yr ardaloedd treialu ac yng ngrŵp cynllunio'r treialu. Y man cychwyn o reidrwydd yw peidio â chynnwys y gofyniad caniatâd yn y Mesur arfaethedig, a dyna pam yr wyf yn gofyn ichi beidio â chefnogi gwelliant 29.

O ran gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol, mae fy sylwadau'n sefyll yng nghyswllt gwelliannau 30 a 31, oherwydd rhaid inni fod yn ymwybodol o'r angen i ddiogelu ein plant a'n pobl ifanc; yr wyf yn cydnabod y ffaith honno. Fodd bynnag, mae'r egwyddor o roi gallu eang i'r cyfaill achos i weithredu yn cael ei chefnogi gan y tribynlysoedd ac eraill. Ni fyddai pennu bod rhaid i bob darpar gyfaill achos fod yn destun gwiriad CRB yn beth hawdd i'w wneud. Er enghraifft, beth pe bai brawd neu chwaer neu riant yn dymuno gweithredu fel cyfaill achos? Y peth pwysicaf yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol sydd gennym yma. Mae hefyd yn bwysig ailddatgan bod Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 yn deddfu ar y mater hwn, gan eithrio'r rhai a fydd yn cael cyswllt rheolaidd â phlentyn o dan drefniadau a wneir gydag aelodau o'r teulu neu drefniadau di-dâl gyda ffrindiau yr ydych yn ymddiried ynddynt rhag gorfol coffrestru o dan y Ddeddf, a fyddai'n golygu bod rhaid cael gwiriad CRB. Felly, mae ddeddfwriaeth sylfaenol bwysig yn ei gwneud yn ofynnol i bobl sy'n cael cysylltiad â phlant fwy nag unwaith y mis, un ai mewn swyddogaeth broffesiynol neu drwy weithredu'n wirfoddol, i fod yn gofrestredig gyda'r awdurdod diogelu annibynnol ac i gael gwiriad CRB.

1.50 p.m.

[52] Once professionals, volunteers and family group members are taken out of the equation, it is unclear as to who else could act as a case friend who would not be covered by the existing legislation. Again, this is where there are opportunities to be proactive in the pilot scheme, but it is important to consider it with our stakeholder groups. I believe that we are content, in light of the existing primary legislation and the reasons that I have given about the pioneering way in which we are developing the case friend opportunity, backed by organisations like SNAP Cymru in its evidence, that case friends appointed by the family should not need CRB checks. I ask you to resist this amendment and the other amendments in the group.

[53] **David Lloyd:** Galwaf ar William Graham i ymateb i'r drafodaeth.

[54] **William Graham:** Although I am mindful of what the Minister had to say, I would prefer this to be on the face of the proposed Measure. The people involved are, very often, particularly vulnerable. The enhanced Criminal Records Bureau checks are necessary.

[55] **David Lloyd:** William, a ydych am symud i bleidlais ar welliant 28?

[56] **William Graham:** I wish to proceed to a vote, Chair.

[57] **David Lloyd:** Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 28.

*Gwelliant 28: O blaid 2, Ymatal 0, Yn erbyn 3.  
Amendment 28: For 2, Abstain 0, Against 3.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Black, Peter  
Graham, William

*Gwrthodwyd gwelliant 28.  
Amendment 28 not agreed.*

[58] **David Lloyd:** Symudwn yn awr at waredu gwelliant 30 yn enw Paul Davies.

Ar ôl rhoi gweithwyr proffesiynol, gwirfoddolwyr ac aelodau'r grŵp teuluol o'r naill ochr, nid yw'n glir pwy arall a allai weithredu fel cyfaill achos na fyddai'n cael ei gwmpasu gan y ddeddfwriaeth bresennol. Eto, mae cyfleoedd yma i fod yn rhagweithiol yn y cynllun treialu, ond mae'n bwysig ei ystyried gyda'n grwpiau rhanddeiliaid. Credaf ein bod yn dawel ein meddwl, o ystyried y ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol a'r rhesymau yr wyf wedi'u rhoi ynglŷn â'r ffordd arloesol yr ydym yn datblygu'r cyfle i gael cyfaill achos, gyda chefnogaeth cyrff fel SNAP Cymru yn ei dystiolaeth, na ddylai fod angen gwiriadau CRB ar gyfeillion achos sy'n cael eu penodi gan y teulu. Gofynnaf i chi beidio â chefnogi'r gwelliant hwn na'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

**David Lloyd:** I now call upon William Graham to reply to the debate.

**William Graham:** Er fy mod yn ymwybodol o'r hyn a oedd gan y Gweinidog i'w ddweud, byddai'n well gennyf i hyn gael ei gynnwys yn y Mesur arfaethedig. Mae'r bobl dan sylw, yn aml iawn, yn arbennig o agored i niwed. Mae'r gwiriadau manylach gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn angenrheidiol.

**David Lloyd:** William, do you wish to proceed to a vote on amendment 28?

**William Graham:** Hoffwn symud i bleidlais, Gadeirydd.

**David Lloyd:** The question is that amendment 28 be agreed to.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Chapman, Christine  
Jones, Helen Mary  
Watson, Joyce

**David Lloyd:** We now come to dispose of amendment 30 in the name of Paul Davies. I

Estynnaf wahoddiad i William Graham i gynnig gwelliant 30. invite William Graham to move amendment 30.

[59] **William Graham:** I move amendment 30 in the name of Paul Davies, with my name in support.

[60] **David Lloyd:** Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 30.

**William Graham:** Cynigiaf welliant 30 yn enw Paul Davies, gyda f'enw i yn ei gefnogi.

**David Lloyd:** The question is that amendment 30 be agreed to.

*Gwelliant 30: O blaid 2, Ymatal 0, Yn erbyn 3.  
Amendment 30: For 2, Abstain 0, Against 3.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Black, Peter  
Graham, William

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Chapman, Christine  
Jones, Helen Mary  
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd gwelliant 30.  
Amendment 30 not agreed.*

[61] **David Lloyd:** Symudwn yn awr at waredu gwelliant 23 yn enw Paul Davies. Estynnaf wahoddiad i William Graham i gynnig gwelliant 23.

[62] **William Graham:** I move amendment 23 in the name of Paul Davies, with my name in support.

[63] **David Lloyd:** Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 23.

**David Lloyd:** We now come to dispose of amendment 23 in the name of Paul Davies. I invite William Graham to move amendment 23.

**William Graham:** Cynigiaf welliant 23 yn enw Paul Davies, gyda f'enw i yn ei gefnogi.

**David Lloyd:** The question is that amendment 23 be agreed to.

*Gwelliant 23: O blaid 2, Ymatal 0, Yn erbyn 3.  
Amendment 23: For 2, Abstain 0, Against 3.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Black, Peter  
Graham, William

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
